# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 6 |
| 5 - Ceisiadau am oddefeb | 10 |
| Atodiad 1 | 11 |
| Atodiad 2 | 14 |
| 6 - Aelodaeth y Pwyllgor Safonau | 17 |
| Atodiad 1 | 18 |
| 7 - Hyfforddiant i Gynghorau Cymuned | 19 |
| Atodiad 1 | 20 |
| 8 - Honiadau yn erbyn Aelodau | 22 |

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**11.00am, DYDD LLUN, 26 IONAWR, 2015**

**11.00am, MONDAY, 26 JANUARY, 2015**

Lleoliad / Location

**Ystafell Gwyrfai,**
**Swyddfa'r Cyngor / Council Offices,**
**Stryd y Jêl / Shirehall Street,**
**Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*Dosbarthwyd/Distributed 16/01/15*

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership**

**Aelodau Etholedig / Elected Members (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors
Lesley Day
Eryl Jones-Williams
Michael Sol Owen

**Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) / Independent Members (with a vote) (5)**

Ms Linda Byrne
Mr Gwilym Ellis Evans
Miss Margaret E Jones
Mr Sam W Soysa
Dr Einir Young

**Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) / Community Committee Member (with a vote) (1)**

Y Cynghorydd / Councillor David Clay

# RHAGLEN

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

   Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. **COFNODION**

   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Medi, 2014 fel rhai cywir (ynghlwm).

5. **CEISIADAU AM ODDEFEB**

   Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm)

6. **AELODAETH Y PWYLLGOR SAFONAU**

   Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

7. **HYFFORDDIANT I GYNGHORAU CYMUNED**

   Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

8. **HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

   Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

9. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 18C, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd ei fod yn ymwneud â thrafodion y Pwyllgor Safonau wrth ddod i benderfyniad ar fater a gyfeiriwyd ato. Credir na ddylid datgelu'r wybodaeth rhag ofn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r achos ragfarnu sefyllfa'r cynghorydd cyn unrhyw wrandawiad. Fel canlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

## 10. ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO AR YMCHWILIAD I GŴYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD ‘A’

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi ar wahân ar gyfer aelodau’r pwyllgor yn unig).

# PWYLLGOR SAFONAU, 29.09.14

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Ms Linda Byrne, Miss Margaret E.Jones, Mr Sam W.Soysa a'r Dr Einir Young.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Croesawyd Iwan Evans i'r cyfarfod yn sgil ei benodi'n Swyddog Monitro.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Mehefin, 14 Gorffennaf a 29 Gorffennaf fel rhai cywir.

Mater yn codi o gofnodion 14 Gorffennaf, 2014
Eitem 2 – Cwynion yn erbyn y Cynghorydd Christopher O'Neal, Cyngor Gwynedd

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd bod llythyr wedi'i anfon at Banel Dyfarnu Cymru yn gofyn iddynt gadarnhau a gyflwynwyd apêl yn yr achos hwn ai peidio.

Mater yn codi o gofnodion 29 Gorffennaf, 2014
Eitem 2 – Cŵyn yn erbyn y Cynghorydd Nancy Clarke, Cyngor Tref Tywyn

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd na chyflwynwyd apêl i Banel Dyfarnu Cymru yn yr achos hwn.

**3. DIWEDDARIAD AR AIL-STRWYTHURO'R GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

Cyflwynwyd – diweddariad llafar gan y Swyddog Monitro ar y newidiadau diweddar yn y gwasanaeth. Eglurodd iddo gychwyn yn ei swydd fel Swyddog Monitro ar 1 Medi a bod Rhun ap Gareth, Uwch Gyfreithiwr, wedi ei benodi'n Ddirprwy Swyddog Monitro. Byddai Sion Huws, Uwch Gyfreithiwr, yn parhau i weithio ar faterion priodoldeb ac yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau. 'Roedd y Tîm newydd, oedd yn cychwyn mynd i'r afael â'i raglen waith, yn cynnwys y gwasanaethau Cyfreithiol, Etholiadau, Crwner a Phriodoldeb.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

**4. CAIS AM ODDEFEB GAN Y CYNGHORYDD MIKE STEVENS**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried cais gan y Cynghorydd Mike Stevens, Cyngor Tref Tywyn, oedd hefyd yn Gadeirydd Siambr Fasnach a Thwristiaeth Tywyn (SF a Th), am oddefeb gyffredinol i siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd y Cyngor Tref pe cyfyd mater ynglŷn â baner y SF a Th.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Nodwyd bod y cais ynglŷn â gosod un faner yn unig ac nad oedd yn fater o arwyddocâd sylweddol o safbwynt budd cyhoeddus.
- Nododd rhai aelodau eu pryder bod hwn yn gais damcaniaethol ac nad oedd yn amlwg ym mha gyd-destun y byddai'r mater yn codi, os o gwbl. I'r gwrthwyneb, nododd eraill ei bod yn well i aelodau gyflwyno cais os ydynt yn rhagweld y gallai mater godi oherwydd y gall fod yn anodd galw'r pwyllgor ynghyd i drafod cais ar fyr rybudd.
- Awgrymwyd caniatáu i'r cynghorydd siarad, ond nid i bleidleisio, yng nghyfarfodydd y Cyngor Tref, ar y sail bod y Cynghorydd yn gadeirydd y SF a Th a bod llais y SF a Th angen cael ei glywed gan y gallai fod yn ychwanegiad buddiol i drafodaeth y Cyngor Tref pe cyfyd y mater penodol yma.
- Oherwydd y gallai amgylchiadau newid, ond fel y gallai'r Cyngor Tref weithredu eu cynlluniau ar gyfer 2015, awgrymwyd cyfyngu'r oddefeb am gyfnod o 18 mis (hyd at Gyfarfod Blynyddol y Cyngor Tref ym Mai 2016).

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais am oddefeb i'r Cynghorydd Mike Stevens siarad, ond nid i bleidleisio, yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Tywyn pe cyfyd trafodaeth ynglŷn â pha faner i'w hedfan ar bolyn y SF a Th ar bromenâd Tywyn o hyn hyd Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ym Mai 2016.**

## 5. RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn adrodd ar y rhaglen waith ac ar addasiadau sydd angen ystyriaeth y pwyllgor.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, nododd y Swyddog Monitro:-

- Nad oedd Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru i law eto.
- Yr awgrymid cysylltu â'r Cynghorau Cymuned yn y lle cyntaf er mwyn gweld beth yw eu hanghenion o safbwynt cefnogaeth, gan adrodd ar yr ymateb i gyfarfod Ionawr.
- Nodwyd nad oedd pob hyfforddiant a gynigir yn denu cefnogaeth ac awgrymodd y Swyddog Monitro y byddai'n dda o beth cael y drafodaeth ynglŷn â'r anghenion a'r modd gorau o gyflwyno pecynnau hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD addasu'r rhaglen waith i gynnwys yr eitemau canlynol ar raglen cyfarfod 26 Ionawr, 2015:-**

- **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru**
- **Anghenion y Cynghorau Cymuned o safbwynt cefnogaeth**
- **Adnabod cyfundrefn cynnig hyfforddiant amgen**

## 6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Nodwyd bod angen cywiro'r penderfyniad yn rhif 2.1 Achos 201300346 i ddarllen fel a ganlyn:-

*"<u>Penderfyniad</u>*
*Y dylai'r aelod dderbyn cerydd, dileu'r clip fideo a'r postiad o'i dudalen Facebook ar unwaith a derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a holl brotocolau'r Cyngor sy'n berthnasol i ymddygiad cynghorwyr."*

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, nodwyd y disgwylid papurau gan yr Ombwdsmon yng nghyswllt rhif 2.8 Achos 201402810.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2013/14

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu'r rhannau hynny o adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2013/14 sy'n berthnasol i gwynion cod ymddygiad.

Nododd y Swyddog Monitro fod y neges ar dudalen 16 o'r adroddiad yn galonogol iawn ac yn awgrymu bod y trefniadau datrys lleol ar draws Cymru yn cael effaith gyda llai o gwynion yn cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn ar achosion yr ymdrinnir â hwy yn lleol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 8. GWE DDARLLEDU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i gyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 9 Medi ynghylch y datblygiadau gwe-ddarlledu, a gofynnwyd i'r pwyllgor am eu sylwadau ar y pwnc.

Ymhelaethodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol ar gynnwys yr adroddiad a'r canllawiau atodol i gynghorwyr am we-ddarlledu.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Awgrymwyd y byddai gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau yn ddiddorol i'w gwe-ddarlledu. Nododd y Swyddog Monitro fod darlledu gwrandawiadau yn fater gwahanol i ddarlledu pwyllgorau safonol y Cyngor gan fod dynameg cyfarfodydd lled-farnwriaethol yn wahanol i bwyllgor cyffredin.
- Awgrymwyd y byddai'n fuddiol petai'r aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau yn cael gwahoddiad i'r sesiwn hyfforddiant ar gyfer holl aelodau'r Cyngor ar y drefn gwe-ddarlledu.

Gwahoddwyd aelodau'r pwyllgor i nodi pwyntiau ddylai gael sylw yn yr hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Cyflwyno'r sylwadau a ganlyn ar y pwnc:-**
- **Bod rhaid i aelodau ystyried sut y mae rhywbeth yn edrych, yn hytrach na'r gwir sefyllfa.**

- **Bod modd i we-ddarllediad ddatrys anghydfod ac y gallai hefyd fod yn dystiolaeth mewn achos o honiad o dorri'r Cod Ymddygiad neu ymddwyn yn groes i egwyddorion Safon Gwynedd.**
- **Bod gwe-ddarlledu yn helpu i hyfforddi'r boblogaeth am ddemocratiaeth.**

**(b) Gwahodd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau i'r sesiwn hyfforddiant (ar brynhawn 26 Tachwedd) ar gyfer holl aelodau'r Cyngor ar y drefn gwe-ddarlledu.**

**(c) Gofyn i'r Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol drafod yr ystyriaethau ynghlwm â gwe-ddarlledu pwyllgorau lled-farnwriaethol gyda'r Swyddog Monitro a'r Uwch Gyfreithiwr.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.15pm.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **26 Ionawr 2015** |
| **TEITL :** | **Ceisiadau am oddefeb** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y ceisiadau** |

**Cefndir**

1 Atodaf gopi o ffurflen gais y Cyng. John Pughe Roberts, Aelod Corris/Mawddwy ar Gyngor Gwynedd, mewn cysylltiad â thrafodaethau ar ad-drefnu addysg yn nalgylch Ysgol y Gader, Dolgellau ynghyd â ffurflen y Cyng. Dilwyn Morgan, Aelod Y Bala, Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad ag ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Ysgol y Berwyn, Y Bala.

2. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol (gweler Atodiad).

3. Mae'r Pwyllgor yn y gorffennol wedi gosod canllawiau i'w hystyried wrth ystyried ceisiadau yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion:

*Y byddai 'tad/mam, taid/nain, ŵyr/wyres, gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau*"

4. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau yn gyffredinol:

*"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol. Os bydd methu rhoi goddefeb yn golygu na fydd awdurdod neu bwyllgor yn cyflawni'r cworwm, gall hyn fod yn rheswm dros roi goddefeb."*

5. Cyflwynir unrhyw wybodaeth bellach fydd wedi ei dderbyn ynglŷn â'r ceisiadau yn y cyfarfod.

**Argymhelliad**

6. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar y ceisiadau.

# Cais i'r Pwyllgor Safonau am Oddefeb

**NI YSTYRIR EICH CAIS OS NA GWBLHEIR POB RHAN O'R Y FFURFLEN HON**

## 1. MANYLION PERSONOL

1.1 Eich enw

JOHN PUGHE ROBERTS

1.2 Enw eich Cyngor

CYNGOR GWYNEDD

1.3 Eich cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt

01650531234

Cerddwn, Llanymawddwy Machynlleth Powys

## 2. MANYLION EICH BUDDIANT

2.1 Beth yw'r eitem dan sylw?

Ysgolion Dalgylch y Gader

2.1 Sut mae eich buddiant yn yr eitem yn codi?

ferch yn Ysgol y Gader

chwaer yn Gweithio yn Ysgol y gader

## 3. MANYLION EICH CAIS

3.1 Ydych chi'n gofyn am oddefeb i siarad a phleidleisio neu i siarad yn unig?

YDW

3.2 Ydych chi'n:

(a) gofyn am oddefeb ar gyfer cyfarfod penodol? Os felly nodwch pa un: Na

neu,

(b) gofyn am oddefeb cyffredinol i gymryd rhan pryd bynnag fydd y mater yn codi?

YDW

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol): ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

**www.gwynedd.gov.uk**

Ffurflen07-04-14(c)

| 4. Mae'r Rheoliadau perthnasol yn gosod yr amgylchiadau lle y gall y Pwyllgor Safonau roi goddefeb a cheir crynodeb ohonynt isod (mae'r manylion llawn i'w gweld yn y nodiadau i'r ffurflen hon). Nodwch pa un o'r amgylchiad(au) hynny sy'n berthnasol i'ch cais drwy dicio'r blwch/blychau perthnasol: | |
|---|---|
| • mae buddiant gan o leiaf hanner yr aelodau sy'n ystyried y mater | ☑ |
| • byddai'r ffaith nad wyf yn medru cymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol y cyfarfod i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio | ☐ |
| • ni fyddai fy nghyfranogiad yn niweidio hyder y cyhoedd | ☑ |
| • mae'r buddiant yn gyffredin i mi ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd | ☑ |
| • mae yna gyfiawnhad i mi gymryd rhan oherwydd fy rôl neu fy arbenigedd penodol | ☑ |
| • mae'r busnes i'w ystyried gan bwyllgor craffu ac nid oes gennyf fuddiant ariannol | ☑ |
| • mae'r busnes yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall | ☐ |

**5. Nodwch isod pam y credwch y dylai'r Pwyllgor Safonau ganiatáu eich cais.**

Rwyf yn cynrychioli ward Dinas Mawddwy ar y cyngor os na gaf ganiatad ni fedraf gynrychioli fy ward

*(gallwch barhau ar dudalen ar wahân os oes angen)*

**Arwyddwyd** [signature] **Dyddiad** 1/12/14

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol):*
*ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

## Nodiadau ar gwblhau'r ffurflen

**1.** Hon yw'r ffurflen ar gyfer cyflwyno cais am oddefeb, sef caniatâd i gymryd rhan mewn trafodaeth er bod gennych *'fuddiant sy'n rhagfarnu'* o dan y Cod Ymddygiad. Gellir cael gwybodaeth bellach am fuddiannau yn y Cod Ymddygiad ei hun, Canllawiau'r Ombwdsmon ac yn llyfryn 'Buddiannau' Cyngor Gwynedd.

**2. Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau**
Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu cais os yw'n dod o fewn un o'r amgylchiadau a restrir yn *Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001*, sef:

" (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu."

***I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.***

***Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol): ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk***

# Cais i'r Pwyllgor Safonau am Oddefeb

**NI YSTYRIR EICH CAIS OS NA GWBLHEIR POB RHAN O'R Y FFURFLEN HON**

## 1. MANYLION PERSONOL

1.1 Eich enw   DILWYN MORGAN

1.2 Enw eich Cyngor   GWYNEDD

1.3 Eich cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt  Ger y Llyn, 41 Heol Tegid, Y Bala, Gwynedd LL237EH
O1678520685 neu07824983305

## 2. MANYLION EICH BUDDIANT

2.1 Beth yw'r eitem dan sylw?
Ad drefnu Addysg Dalgylch Y Berwyn

2.1 Sut mae eich buddiant yn yr eitem yn codi?

1. Fy ngwraing yn gwneud gwaith llanw yn achlysurol yn Ysgolion y Dalgylch
2.Fy ngwraig yn gweithio mewn ysgolion yn rhoi gwersi cerdd ar ran Canolfan William Mathaias
3.Rydwyf yn Llywodraethwr yn Ysgol Y Berwyn

## 3. MANYLION EICH CAIS

3.1 Ydych chi'n gofyn am oddefeb i siarad a phleidleisio neu i siarad yn unig?
Siarad a phleidleisio

3.2 Ydych chi'n:

(a) gofyn am oddefeb ar gyfer cyfarfod penodol? Os felly nodwch pa un:

Holl gyfarfodydd yn ymwneud ar ail drefnu

neu,

(b) gofyn am oddefeb cyffredinol i gymryd rhan pryd bynnag fydd y mater yn codi?

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y  ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol):*
*ffôn - 01286 679168   e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

**www.gwynedd.gov.uk**

**4. Mae'r Rheoliadau perthnasol yn gosod yr amgylchiadau lle y gall y Pwyllgor Safonau roi goddefeb a cheir crynodeb ohonynt isod (mae'r manylion llawn i'w gweld yn y nodiadau i'r ffurflen hon). Nodwch pa un o'r amgylchiad(au) hynny sy'n berthnasol i'ch cais drwy dicio'r blwch/blychau perthnasol:**

| | |
|---|---|
| • mae buddiant gan o leiaf hanner yr aelodau sy'n ystyried y mater | ☐ |
| • byddai'r ffaith nad wyf yn medru cymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol y cyfarfod i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio | ☐ |
| • ni fyddai fy nghyfranogiad yn niweidio hyder y cyhoedd | ☐ |
| • mae'r buddiant yn gyffredin i mi ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd | ☐ |
| • mae yna gyfiawnhad i mi gymryd rhan oherwydd fy rôl neu fy arbenigedd penodol | ☐ |
| • mae'r busnes i'w ystyried gan bwyllgor craffu ac nid oes gennyf fuddiant ariannol | ☐ |
| • mae'r busnes yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall | ☐ |

**5. Nodwch isod pam y credwch y dylai'r Pwyllgor Safonau ganiatáu eich cais.**

**Y mae fy nghyfraniad fel Cynghorydd Tref Bala yn hanfodol er mwyn lleisio barn y gymuned yn y mater yma a hefyd i gynrychioli a rhoi barn yr etholwyr yn ystod yr ymgynghori**

***(gallwch barhau ar dudalen ar wahân os oes angen)***

**Arwyddwyd**______D Morgan___________________________________________
**Dyddiad**____15.1.15_________________________

***I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.***

***Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol):***
***ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk***

**www.gwynedd.gov.uk**

## Nodiadau ar gwblhau'r ffurflen

**1.** Hon yw'r ffurflen ar gyfer cyflwyno cais am oddefeb, sef caniatâd i gymryd rhan mewn trafodaeth er bod gennych *'fuddiant sy'n rhagfarnu'* o dan y Cod Ymddygiad. Gellir cael gwybodaeth bellach am fuddiannau yn y Cod Ymddygiad ei hun, Canllawiau'r Ombwdsmon ac yn llyfryn 'Buddiannau' Cyngor Gwynedd.

**2. Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau**
Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu cais os yw'n dod o fewn un o'r amgylchiadau a restrir yn *Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001*, sef:

" (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu."

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol):*
*ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **26 Ionawr 2015** |
| **Teitl :** | **Aelodaeth y Pwyllgor Safonau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1.Bydd tymor swydd dau o aelodau annibynnol y Pwyllgor sef, Gwilym Ellis Evans a Sam Soysa (y Cadeirydd ac Is-gadeirydd presennol) yn dod i ben ym mis Chwefror eleni. Gan eu bod eisoes wedi gwasanaethu am ddau dymor nid ydynt yn gymwys i gael eu penodi am gyfnod pellach.

2. Y camau fydd angen eu dilyn i benodi aelodau annibynnol newydd fydd:

- Hysbysebu mewn dim llai na dau bapur newydd o fewn ardal yr awdurdod.
- Sefydlu Panel Ymgynghorol.
- Y Panel Ymgynghorol i ystyried y ceisiadau (drwy gyfweliadau y gwneir hyn fel arfer)
- Cyflwyno argymhelliad y Panel i gyfarfod o'r Cyngor Llawn a fydd yn gwneud y penodiadau. Mae'r cyfarfod nesaf ar 05/03/15.

3. Mae'r Cyngor llawn wedi dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro i sefydlu Panel Ymgynghorol pan fydd lle gwag yn codi. Mae'n rhaid i'r Panel gynnwys dim mwy na phum aelod ac mae'n rhaid i un ohonynt fod yn aelod lleyg (heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol gyda llywodraeth leol) ac un aelod o gyngor cymuned.

4. Y tro diwethaf aelodau'r Panel oedd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Cadeirydd y Pwyllgor Democrataidd, Aelod Cymunedol y Pwyllgor Safonau a dau aelod lleyg.

5. Ystyrir yr ymgeiswyr yn erbyn meini prawf a osodwyd gan y Cyngor pan sefydlwyd y Pwyllgor. Atodir copi o'r meini prawf yma er gwybodaeth.

**Argymhelliad**

6.Gofynnir i aelodau nodi'r wybodaeth uchod a chynnig unrhyw sylwadau ac awgrymiadau yr hoffent eu gwneud ynglŷn â'r broses.

**Atodiad**

## Penodiadau i'r Pwyllgor Safonau - Meini Prawf

Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddangos annibyniaeth ac amhleidioldeb wrth gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau mewn hybu, cynnal a gwella trefniadau moesegol o fewn Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned/tref y sir.

Bydd gwaith y Pwyllgor yn golygu bod yn rhaid i'r aelodau feddu ar y nodweddion a sgiliau canlynol:-

- Sgiliau gwrando;
- Y gallu i ddeall a phwyso tystiolaeth;
- Y gallu i ffurfio barn wrthrychol a'i hesbonio drwy gyfeirio at y dystiolaeth;
- Sgiliau gweithio mewn tîm;
- Parchu pobl eraill a dealltwriaeth o ystyriaethau gwahaniaeth;
- Disgresiwn;
- Uniondeb Personol.

### Meini Prawf ychwanegol i aelodau annibynnol

Nid oes angen gwybodaeth fanwl o lywodraeth leol er y byddai o fantais pe bai diddordeb gan ddarpar ymgeiswyr mewn materion sy'n berthnasol i fywyd a gwasanaethau cyhoeddus. Yn ogystal, y mae'n rhaid i aelodau annibynnol:-

- Fod yn gymwys i gael eu dethol yn aelod annibynnol.
- Fod yn uchel eu parch o fewn y gymuned:
- Allu rhoi'r amser angenrheidiol i'r dyletswyddau a bod ar gael ar fyr rybudd;
- Allu darparu dau dystlythyr.

Ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn fantais a chymerir i ystyriaeth cadw cydbwysedd sgiliau, rhinweddau a medrusrwydd ar y Pwyllgor, yn ogystal â'r angen i gynrychioli'r gymuned yn gyfan gwbl a chyflawni cynrychiolaeth ddaearyddol.

| Pwyllgor : | PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|
| Dyddiad : | 26 Ionawr 2015 |
| Teitl : | Hyfforddiant i Gynghorau Cymuned |
| Awdur : | Swyddog Monitro |
| Gweithredu : | Er gwybodaeth |

**Cefndir**

1. Yn ei gyfarfod diwethaf, penderfynodd y Pwyllgor y dylid mynd ati i ddarparu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i gynghorau cymuned a thref unwaith eto. Serch hynny, roedd yn awyddus i ystyried y dull gorau o gyflwyno'r hyfforddiant, ac i gael barn y cynghorau ar beth fyddent hwy yn ei ddymuno.

2. Amgaeaf lythyr anfonwyd at y cynghorau sy'n hunan esboniadol. Adroddir ar lafar ar yr ymatebion fydd wedi eu derbyn erbyn dyddiad y cyfarfod, ond hyd yn hyn mae'r ymateb wedi bod yn ffafriol.

3. Mae trafodaethau mwy manwl hefyd wedi ei hagor ynglŷn â'r math o broblemau sy'n wynebu cynghorau cymuned a pha fath o gymorth y gellir ei gynnig, megis canllawiau a phrotocolau ayb.

**Argymhelliad**

4. Gofynnir am farn y Pwyllgor ar yr awgrymiadau sydd yn y llythyr, ac unrhyw awgrymiadau ynglŷn â'r math o gefnogaeth a ellir ei gynnig i gynghorau cymuned a thref.

**Gwasanaeth Cyfreithiol**
**Legal Service**
Rheolwr/ Manager - Iwan G. D. Evans

Gofynnwch am/Ask for: **Sion Huws**
☎ **(01286) 679168**
Ein Cyf / Our Ref: PDB/14/11/SH
Eich Cyf / Your Ref:

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

At: Clercod y Cynghorau Cymuned a Thref
To: Clerks of Community/Town Councils

09/01/15

Annwyl Glerc,

**Y Cod Ymddygiad i Aelodau**

Mae'r Pwyllgor Safonau yn awyddus i barhau i gynnig cymorth a chefnogaeth i gynghorau cymuned a thref ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

Un ffordd y mae wedi gwneud hyn yn y gorffennol yw drwy drefnu sesiynau i aelodau a chlercod lle cyflwynir hyfforddiant gan y Swyddog Monitro a chyfreithwyr y Cyngor. Teimlir ei bod yn amserol cynnal sesiynau tebyg unwaith eto, ond mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau fod unrhyw gymorth sy'n cael ei gynnig yn cyfarch eich gofynion chi. Mae wedi gofyn i mi felly gysylltu i gael eich barn, fel cyngor, ar gynnwys a ffurf yr hyfforddiant a ellir ei gynnig.

O'm safbwynt i, teimlaf y dylai unrhyw hyfforddiant ganolbwyntio ar y sefyllfaoedd 'go iawn' hynny yr ydych yn gorfod delio â nhw. Hoffwn felly awgrymu cynnal sesiynau/gweithdai i drafod y sefyllfaoedd hynny, lle gallwn gynnig cyngor ymarferol ar sut i fynd i'r afael â nhw.

Byddai'r drafodaeth yn cael ei arwain gan yr hyn yr hoffech chi ei drafod ond ar sail ein profiad o'r mathau o sefyllfaoedd y cawn gwestiynau yn eu cylch, awgrymaf y penawdau cyffredinol canlynol:

Dear Clerk,

**The Code of Conduct for Members**

The Standards Committee is eager to continue to offer guidance and support to community and town councils on matters relating to the Code of Conduct.

One of the ways it has done this in the past is by arranging training sessions for members and clerks in which training is provided by the Monitoring Officer and solicitors from the Council. It is felt that such sessions should be arranged again, but the Committee is anxious to ensure that any assistance offered addresses your needs. It has therefore asked me to contact you for your views on the content and form of the training.

From my point of view, I feel that any training should concentrate on those 'real life' situations that you have to deal with. I would therefore like to suggest holding sessions/workshops where those situations can be discussed, and where we can offer practical advice on how to tackle them.

The discussion would be led by the issues you would like to raise but, on the basis of the kind of questions we are asked regularly, I would suggest the following general headings:

- Buddiannau personol - pryd ddylai cynghorwyr adael a phryd mae'n iawn iddynt aros?
- Personal interests – when should councillors leave and when can they stay?

- Creu a chynnal diwylliant priodol. Rôl y Clerc a'r Aelod.
- Creating and maintaining the appropriate culture. The rôle of the Clerk and the Councillor.

- Trafodaethau a phenderfyniadau – sut i sicrhau eu bod yn drefnus a phriodol ac na fyddant yn arwain at broblemau ymddygiad ?
- Discussions and decisions – how to ensure that they are orderly and properly conducted and that they do not lead to conduct problems?

- Goddefebau gan y Pwyllgor Safonau.
- Dispensations by the Standards Committee.

Byddwn yn ddiolchgar o wybod os ydych yn cytuno gyda'r awgrym uchod neu os oes yna gymorth gwahanol neu ychwanegol y gallem ei gynnig.

I would be grateful to know if you agree with this suggestion or whether there is any different or additional assistance that we could offer.

Yn draddodiadol mae'r cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda'r nos ym Mhwllheli, Dolgellau, Trawsfynydd a Chaernarfon (gan gynnwys sesiwn drwy'r Saesneg), ond eto hoffem gael eich barn chi am y trefniant yma.

In the past, meetings have been held in the evenings in Pwllheli, Dolgellau, Trawsfynydd and Caernarfon (including a session held in English), but again we would welcome your views on this arrangement.

Byddwn yn ddiolchgar iawn felly o glywed os ydych yn dymuno i ni gynnal sesiynau o'r fath, os oes cwestiynau neu faterion penodol yr hoffech i ni eu trafod ac os yw'r trefniadau arfaethedig yn dderbyniol.

I would therefore be very grateful to hear from you as to whether or not you would like us to arrange sessions on the Code of Conduct, if there are any particular issues or questions you would like to raise and if the proposed arrangements would be acceptable.

Yn gywir / Yours faithfully,

pp. **Iwan G D Evans**
**Swyddog Monitro / Monitoring Officer**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **26 Ionawr 2015** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

## 2. Cwynion

### 2.1 Achos 201300346

Dyddiad derbyn: 23/04/13

**Cwyn**

Bod cynghorydd sir wedi ffilmio a recordio sgwrs yn gyfrinachol a'i roi ar ei dudalen Facebook.

**Penderfyniad**

Cerydd, tynnu'r ffilm oddi ar Facebook, derbyn hyfforddiant.

### 2.2 Achos 201301307

Dyddiad derbyn: 06/06/13

**Cwyn**

Bod cynghorydd sir wedi ymddwyn mewn ffordd fygythiol tuag at yr achwynydd

**Penderfyniad**

Aelod wedi ei atal am 2 fis gan y Pwyllgor Safonau. Dim apêl. Y gwaharddiad wedi dod i ben ar 15/12/14.

**2.3 Achos 201301629**

Dyddiad derbyn: 17/06/13

**Cwyn**

Cwyn, gan gyd-gynghorydd, bod cynghorydd tref wedi methu datgan buddiant mewn eitem oedd gerbron cyfarfod o'r cyngor.

**Penderfyniad**

Aelod wedi eu hatal gan y Pwyllgor Safonau am gyfnod o dri mis. Dim apêl. Y gwahraddiad wedi dod i ben ar 18/12/14.

**2.4 Achos 6141/201400682**

Dyddiad derbyn: 29/04/14

**Cwyn**

Cwyn, gan gyd-gynghorydd, bod cynghorydd tref wedi cam ddefnyddio ei safle er mwyn cael mantais ariannol.

**Penderfyniad**

Ombwdsmon am ymchwilio i rai agweddau o'r gwyn

**2.5 Achos 201402810**

Dyddiad derbyn: 28/07/14

**Cwyn**

Wedi anfon e-bost at fudiad lleol ar ran y cyngor cymuned ond heb ei gymeradwyaeth.

**Penderfyniad**

Cyfeirio at y Swyddog Monitro i ymchwilio ac adrodd i'r Pwyllgor Safonau.

**2.6 Achos 201403279**

Dyddiad derbyn: 14/08/14

**<u>Cwyn</u>**

Aelod Cyngor Gwynedd wedi torri nifer o egwyddorion y cod wrth ymwneud â mater lleol.

**<u>Penderfyniad</u>**

Peidio ymchwilio. Er y dylai aelod ymateb yn brydlon ac yn llawn i ohebiaeth, nid yw methiant i wneud hynny yn ddigon difrifol i dorri'r cod. Nid oedd tystiolaeth fod yr aelod wedi gwrthod trafod y materion perthnasol gyda'r achwynydd na'i bod yn bwriadu achosi anfantais iddo.

**2.7 Achos 5847/201402641 & 201402642 & 201403463**

Dyddiad derbyn: 18/07/14

**<u>Cwyn</u>**

Cwyn, gan aelod o gyngor tref bod tri o'i gyd-aelodau wedi methu datgan buddiant.

**<u>Penderfyniad</u>**

Ymchwiliad:

**5847/201402641 & 201402642** Dim tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio gyda'r cod – gallai fod gan yr aelod fuddiant ac roedd wedi datgan hynny yn y cyfarfod. Serch hynny nid oedd o'r farn fod y buddiant yn un oedd yn rhagfarnu.
**201403463** ymchwiliad yn parhau

**2.8 Achos 6769/201402621**

Dyddiad derbyn: 18/07/14

**<u>Cwyn</u>**

Cwyn, gan aelod o gyngor tref bod cyd-aelod wedi ymddwyn yn amhriodol.

**<u>Penderfyniad</u>**

Peidio ymchwilio. Dim tystiolaeth i gefnogi'r honiad. Ddim yn amlwg y byddai'n torri'r cod hyd yn oed pe profir yr achos.

**2.9 Achos 201404314**

Dyddiad derbyn: 29/09/14

**Cwyn**

Cwyn fod aelod cyngor cymuned wedi methu datgan buddiant personol.

**Penderfyniad**

Ystyried os am ymchwilio.

**2.10 Achos 5847/201404989 & 5847/201404990**

Dyddiad derbyn: 21/10/14

**Cwyn**

Cwyn fod aelod cyngor tref wedi ymddwyn mewn modd oedd yn dwyn anfri ar y cyngor.

**Penderfyniad**

Ystyried os am ymchwilio.

**2.11 Achos 5847/201404533**

Dyddiad derbyn: 06/10/14

**Cwyn**

Cwyn fod aelod cyngor cymuned wedi methu datgan buddiant personol, ac ymddwyn yn amhriodol.

**Penderfyniad**

Ymchwilio rhai agweddau fel rhan o ymchwiliad sydd eisoes yn cael ei gynnal i mewn i gŵyn yn erbyn yr un aelod.

**2.12 Achos 5847/201405385**

Dyddiad derbyn: 14/11/14

**Cwyn**

Cwyn gan aelod cyngor tref fod aelod arall, fel y Cadeirydd, wedi ymddwyn yn anheg tuag ato.

**Penderfyniad**

Peidio ymchwilio. Dim tystiolaeth fod ymddygiad yr aelod yn anghwrtais neu ei fod gyfystyr ag aflonyddu o dan y cod.

## 3. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.